Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Ann Jones AC**
**Cadeirydd**
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Tachwedd 2014

Annwyl Ann

**Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cynnal ymchwiliad i dlodi yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r ymchwiliad hwn wedi'i rannu'n bedair elfen, a bydd pob un ohonynt yn canolbwyntio ar un mater penodol mewn perthynas â thlodi. Mae pob elfen yn annibynnol, gyda chylch gorchwyl penodol. Gyda'i gilydd, fodd bynnag, bydd yr elfennau hyn yn creu un darn o waith yn ymwneud â'r maes hwn.

Mae'r pedair elfen fel a ganlyn:
- Elfen 1: tlodi ac anghydraddoldeb
- Elfen 2: effaith diwygio lles ar dlodi yng Nghymru
- Elfen 3: tlodi mewn gwaith
- Elfen 4: dulliau o drechu tlodi yn y gymuned

Rydym wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig ar Elfen 1 yr ymchwiliad, y gellir ei gweld drwy'r linc a ganlyn:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=138

Rydym yn clywed tystiolaeth lafar ar Elfen 1 ar hyn o bryd, ac mae'r gwaith hwn yn debygol o ddod i ben yn gynnar y flwyddyn nesaf, gyda'n hadroddiad yn dilyn maes o law.

Wrth baratoi ar gyfer cam nesaf ein hymchwiliad, rydym wedi galw am dystiolaeth ysgrifenedig ar Elfen 4. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r dystiolaeth hon yw 30 Ionawr 2015.

Roeddwn am ddwyn i'ch sylw waith y Pwyllgor ar y pwnc hwn, oherwydd ei bod yn bosibl y bydd materion sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gan gynnwys eich ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel, yn cael eu codi wrth inni gasglu tystiolaeth. Os oes unrhyw bwyntiau yr hoffech eu codi gyda'r Pwyllgor mewn perthynas â'n hymchwiliad, byddwn yn ddiolchgar i glywed amdanynt; byddwn yn rhoi gwybod ichi am unrhyw ganlyniadau a allai godi o'r pwyntiau hyn.

Yn gywir

**Christine Chapman AC**

**Cadeirydd**